

COFNODION 15.02.2021
CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED.

PRESENNOL

Cyng. Delme Phillips (Cadeirydd), Cyng. Bryan Davies, Julian Evans ac Elfed Davies

55.YMDDIHEURIADAU

Cyng. Wyn Evans, Eurig Rees, Phillip Jones ac Eifion Jones

56.DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim wedi nodi.

57.CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF – 18/01/2021

Sylwodd y Cyng. Elfed Davies bod camgymeriad wedi ei wneud ar fersiwn Gymraeg o chofnodion Ionawr (52a) Cyflog Clerc dylsai fod am "Mis Rhagfyr". Cofnodion Saesneg yn gywir. Clerc wedi'i gywiro.

Cynigiwyd gan y Cyng. Elfed Davies bod cofnodion y cyfarfod ar-lein a gynhaliwyd ar 18.01.2020 yn gofnodion cywir. Eiliodd y Cyng. Julian Evans.

58.MATERION YN CODI O'R COFNODION

Bws 460 - Clerc i gysylltu â Chyng. Sir Irfon Jones.

Safle Air Gylchu - dim datblygiad ar yr adeg yma.

Cylch Meithrin Newydd Cynwyl Elfed -

Rhoddyd adroddiad ô chyfarfod a drefnwyd gan Nerys Defis ar Zoom ar 28fed o Ionawr gan Cyng. Elfed Davies.

Roedd ymateb i'r holiadur yn ffafriol. Pwyllgor wedi ei ffurfio. Etholwyd Gethin Page yn gadeirydd, Sian yn ysgrfennydd, Lleucu yn drysorydd. Mae'r Cyng. Elfed Davies i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y pwyllgor a Chyng. Bryan Davies mewn rôl gefnogol. Mae cyfarfod nesaf o bwyllgor y Cylch Meithrin ar Zoom ar 27fed Chwefror. Mae'r Mudiad Meithrin wedi ei gysylltu a threfniadau wedi gwneud i lanhau'r neuadd a pharatoi deinydd yn barod am archwiliad. Dywedodd Cyng. Elfed Davies bod angen cenogaeth brwd gan y gymuned er mwyn i'r Cylch Meithrin fod yn llwyddiant.

Cyfleusterau Cyhoeddus -

Derbyniwyd adroddiad o chostau'r Cyfleusterau rhwng 05/04/2018 - 05/04/20.

Cymerwyd y les drosodd gan y Cyngor Cymuned ar 19/04/2018- nid yw'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am costau'r Cyfleusterau cyn y dyddiad hyn. Clerc i fynd yn ôl at Rhys Davies gyda'r gwybodaeth yma ac i gael eglurhad.

Mae'r glanhawr i fod glanhau y llwybr tu allan i'r cyfleusterau ond mae'r man yma wedi cael ei adael mewn cyflwr annerbyniol. Cynigwyd gan Cyng. Julian Evans fod y Cyngor yn cael allwedd sbar er mwyn i gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned gwneud archwiliad rheolaidd

gan wneud yn siwr bod yr adeilad a'r ardal o'i hamgylch yn cael ei gadw'n lan ac yn ddiogel ar bob adeg. Cyng. Bryan Davies yn eilio.

59. GOHEBIAETH

Mae copïau o'r holl e-byst perthnasol a dderbyniwyd wedi'u hanfon at Gynghorwyr cyn y cyfarfod.

60.CYNLLUNIO

PL/01234- .Adeiladu garej domestig - Cwm Tawel Lodge, Cynwyl Elfed SA33 6AR.

Cafodd y mater ei drafod. Cynigwyd gan Cyng. Elfed Davies bod y Cyngor yn cefnogi'r cais gyda'r Cyng. Julian Evans yn eilio.

61.TALIADAU A CHYLLID

(a)Taliadau - Cyflog y Clerc - Mis Ionawr 2021. - £209.90

W3Web Design (ail taliad) - £423.50

Archwilio Cymru £331.25 - wedi ei dalu ar ôl derbyn esboniad o'r ffi oddi wrth Grant Thornton ac hefyd ar ôl cysylltu ag Un Llais Cymru.

Cynigwyd gan Cyng.Bryan Davies gyda'r Cyng. Elfed Davies yn eilio.

(b) Adran 137

Defynnir Llywodraeth Cymru mewn llythyr dyddiedig 26.11.2020 bod uchafswm gosodwyd am 2020-2021 yn £8.32 yr etholwr.

Rhif etholwyr 838 @ £8.32 =£6972

Uchafswm gosodwyd am 2021-2022 yn £8.41 yr etholwr. Rhif etholwyr 838 @ £8.41 = £7,047

Derbyniwyd rhif yr etholwyr oddi wrth Cyngor Sir Gâr.

Mae sawl cais am grant wedi ei dderbyn a ffurfleni wedi'u hanfon iddynt. Nid yw pob ffurflen wedi'i chwblhau a'i ddychwelyd. Y rheswm - oedi wedi cael ei roi lawr i COVID 19 a thrafferth cael copïau o'r Cyfrifon Blynnyddol. Penderfynwyd gan y Cyngor i drafod pob cais sydd wedi ei dderbyn gyda'r dogfennau priodol mewn lle yn y cyfarfod hwn, all y gweddill cael eu trafod yng nghyfarfod Mis Mawrth.

Trafodwyd pob cais a dderbyniwyd yn ôl yn gyflawn. Cynigiwyd gan y Cyng. Elfed Davies bod y Cyngor yn rhoi £490 yr un i'r mudiadau canlynnol :-

Cwmduad Community Centre	£490
Pwyllgor Henoed Cynwyl Elfed	£490
Clwb Ffermwyr Ifanc Cynwyl Elfed	£490
Cae Chwarae Bro Elfed	£490
Cynwyl Elfed Parents Association.	£490
Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed	£490

Eiliwyd gan y Cyng. Julian Evans.

62.MATERION PRIFFYRDD

Mae'r clerc yn aros ymateb oddi wrth Cyngor Sir Gâr ynglyn a rhestr o ddiffygion a phryderon anfonwyd ym Mis Ionawr. Mae rhain yn dal i fod yn broblemau parhaus.

Blychau Graean - Mae angen llenwi blychau graean - nodir o leia naw yn y Plwyf hon - Mae gwybodaeth o'r nifer a'u lleoliad gan y Cyngor Sir. Cynigiodd Cyng. Delme Phillips dylai'r Clerc gysylltu â Chynghorydd Sir, Irfon Jones gyda'r bwriad o symud y mater yn ei flaen ynghylch yr angen i raeanu ffyrdd dosbarthedig is y plwyf mewn da bryd yn ystod cyfnodau rhewllyd y gaeaf. Yn y cyfnod yma mae'r prif ffyrdd yn cael eu graeanu, ond mae'r ffyrdd llai, gwledig fel ffordd Llethr Moel, Drysgol Goch etc. ddim yn cael eu raeanu heblaw bod grean ar ôl a gweithwyr ar gael i'w dosbarthu. Yn aml iawn mae'r ffyrdd llai yn cael eu gadael heb eu graeanu trwy'r gaeaf na'r blychau graean yn cael eu llenwi'n ddigonol a mewn pryd. Eiliwyd cynnig y Cyng. Delme Phillips gan Cyng. Bryan Davies, Elfed Davies a Julian Evans.

Cynigiwyd gan Cyng. Julian Evans bod y Clerc yn cysylltu gyda Adran Priffyrdd y Cyngor Sir ynglyn ar Terfyn Cyflymder drwy Cynwyl Elfed. Mae llawer o yrrwyr yn anwibyddu'r terfyn 20 mya sydd yn ei le gan fod yno arwyddion 30m.y.a. yn dal yn ei le.

Radar Cyflymder ar bwys y parc chwarae ddim yn gweithio am ei fod yn ddibynnol ar golau'r haul i gynnal y batri solar. Mae coed yn cuddio'r haul a drwy misoedd y Gaeaf mae'n annodd i gael cyflenwad digonol i'r batri. Cynghorwy'r yn holi ydi fe'n bosib gael cyflenwad trydan i gael y Radar Cyflymder i weithio. Clerc i wneud ymholiadau.

63.UNRHYW MATER ARALL

CYFARFOD ZOOM UN LLAIS CYMRU -Cyng.Bryan Davies wedi cymryd rhan a rhoddodd adroddiad cyflawn o'r cyfarfod i'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 2145.